# Gwybodaeth Ychwanegol at Atebion Gweinidogion

## Gwybodaeth ychwanegol at OAQ1624(FM), gan Carwyn Jones, y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad

**At Janet Davies:**

Mae Rhodri Morgan wedi gofyn imi ysgrifennu atoch yn dilyn ei ateb i'ch cwestiwn atodol (OAQ1624(FM) yn y Cyfarfod Llawn ar 13 Mehefin ynghylch mastiau ffonau symudol.

Cyfeiriasoch at eich Cynnig cynharach o dan Reol Sefydlog 31.2 ac, mewn perthynas â'r hyn a ddywedais yn ystod y ddadl, gofynasoch i Rhodri 'Beth fu'r ymateb o du cwmnïau ffonau symudol i'r cynigion yr ydych yn eu cyflwyno—'.

I grynhoi, bu imi:

- gyfeirio at yr angen i adolygu'r 'Cod Arferion Gorau ar Ddatblygu'r Rhwydwaith Ffonau Symudol' gan y Cynulliad; ac

- awgrymu y gallai Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad (EPC) yn y Cynulliad adolygu'r polisi cynllunio ar gyfer telathrebu.

Mae Pwyllgor EPC yn ystyried adolygiad o'r fath ac, fel cam cyntaf, wedi gwahodd cynrychiolwyr o Gymdeithas y Gweithredwyr Ffonau Symudol (sydd yn cynrychioli gweithredwyr rhwydweithiau ffôn symudol y Deyrnas Unedig) a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i fod yn bresennol yn y cyfarfod ar 28 Mehefin i drafod yr agweddau cynllunio ar offer cyfathrebu electronig.

Bydd angen imi weld sut y mae pethau yn mynd yn y Pwyllgor EPC a phan fyddaf yn adolygu'r polisi cynllunio bydd angen imi gymryd i ystyriaeth unrhyw argymhellion a allai ddeillio o'u trafodaethau.

# Gwybodaeth Ychwanegol at Atebion Gweinidogion

## Gwybodaeth ychwanegol at EAQ0916(EIN) a gyhoeddwyd gan Andrew Davies, y Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau

**At Michael German:**

Mewn Cyfarfod Llawn diweddar, dywedais y byddwn yn egluro statws ffatri Continental Teves yng Nglynebwy o'i chymharu â safleoedd eraill y cwmni o ran proffidioldeb.

Safle Rheinbolen yn yr Almaen sydd wedi bod fwyaf proffidiol yn hanesyddol (o ran elw fel canran o werthiant), tra mai Glynebwy yw'r ail o blith y 4 safle sylfaen.

Mae Rheinbolen gryn dipyn yn fwy na safle Glynebwy, ac mae'n safle lle y defnyddir llawer o systemau awtomatig a lle y gellir manteisio ar effeithlonrwydd o ran maint.